Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund

# GWYBODAETH YCHWANEGOL

Haf 2025, Rhifyn 8

**Croeso**

Croeso i Rifyn 8 o Gwybodaeth Ychwanegol, newyddlen Cronfa Bensiynau Clwyd a ddefnyddir i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) a rheoliadau pensiwn eraill.

Y prif reswm dros y rhifyn hwn yw rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda chi ynghylch Datrysiad McCloud a'r Dangosfwrdd Pensiynau.

Cysylltwch â ni os oes gennych chi gwestiynau am unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y newyddlen hon. Mae ein manylion cyswllt ni i'w gweld ar waelod y newyddlen hon.

Cofion cynnes,
Karen Williams,
Rheolwr Gweinyddu Pensiynau



## Rheoliadau: Diweddariad McCloud



Gallwch ddarllen rhagor am Ddatrysiad McCloud a gwylio fideo byr ar wefan y CPLlL cenedlaethol: **www.lgpsmember.org/mccloud-remedy** (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Mae Datrysiad McCloud wedi arwain at newid rheoliadau pensiwn cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus, yn cynnwys Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Roedd angen gwneud y newidiadau er mwyn dileu'r gwahaniaethau ar sail oed hanesyddol ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2022.

Rydych yn gymwys ar gyfer y newid hwn os:

- Oeddech chi'n talu cyfraniadau pensiwn i'r CPLlL neu gynllun pensiwn sector cyhoeddus arall ar neu cyn 31 Mawrth 2012;
- Oeddech chi hefyd yn talu cyfraniadau pensiwn i'r CPLlL rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022; ac os
- Ydych chi wedi bod yn aelod o CPLlL neu unrhyw gynllun pensiwn sector cyhoeddus arall heb doriad o fwy na 5 mlynedd yn olynol.

Os byddwch chi'n gymwys:

- Byddwn yn cyfrifo eich pensiwn yn unol â rheolau McCloud ac yn sicrhau eich bod yn derbyn y swm uwch o bensiwn ar eich ymddeoliad, yn seiliedig ar ba set o reolau sy'n gweithio orau i chi.
- Os ydych chi eisoes yn derbyn eich pensiwn, byddwn yn ei gynyddu lle bo angen ac yn gwneud taliad â llog ar gyfer unrhyw bensiwn yr ydych wedi'i golli yn y gorffennol.

Mae'n annhebygol y bydd Datrysiad McCloud yn effeithio ar werth pensiwn llawer o aelodau, a bychan fydd unrhyw gynnydd yn ôl pob tebyg.

## Cyfathrebu: Pryd mae datganiadau buddion blynyddol i fod i gael eu cyhoeddi eleni?


Os nad ydych chi'n derbyn taliadau pensiwn gan Gronfa Bensiynau Clwyd eto, rydych chi'n derbyn datganiad gennym ni bob blwyddyn i ddangos gwerth amcangyfrifedig eich pensiwn ar hyn o bryd

- Fel arfer, cyhoeddir datganiadau pensiwn gohiriedig ym mis Mehefin.
- Fel arfer, cyhoeddir datganiadau ar gyfer aelodau sy'n dal i dalu cyfraniadau pensiwn ym mis Awst.

O eleni ymlaen, mae'n rhaid i'ch datganiad ddangos a yw McCloud yn effeithio ar eich pensiwn.

O'r herwydd, bydd mwy o wybodaeth a gwerthoedd ar eich datganiad o gymharu â mewn blynyddoedd blaenorol a chyhoeddir pob datganiad ym mis Awst eleni.

**Mae hyn yn golygu y bydd datganiadau gohiriedig yn cael eu cyhoeddi ychydig fisoedd yn hwyrach na'r arfer.**




Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund

## Cyfathrebu: Dangosfwrdd Pensiynau





**Beth yw'r Dangosfwrdd Pensiynau?**
Mae'r Llywodraeth yn creu Dangosfwrdd Pensiynau cenedlaethol. Dyma wefan newydd y gallwch fewngofnodi iddi, a fydd yn eich helpu i weld eich holl bensiynau mewn un lle. Weithiau, bydd gan bobl fwy nag un pensiwn gwaith os ydyn nhw wedi gweithio mewn swyddi gwahanol. Bydd y Dangosfwrdd yn dangos y cyfan gyda'i gilydd, fel ei bod yn haws i chi gadw golwg arnynt.

**A oes modd i mi weld fy mhensiynau os ydw i eisoes yn derbyn taliad ohonynt?**
Nac oes, ni fydd modd i chi weld eich pensiynau os ydych chi eisoes yn derbyn taliadau. Dim ond pensiynau nad ydych wedi dechrau eu tynnu eto y bydd y Dangosfwrdd Pensiynau yn eu dangos.

**Pam bod y Dangosfwrdd yn ddefnyddiol?**
Weithiau, mae pobl yn anghofio am hen bensiynau, neu nid ydynt yn gwybod faint o arian maent wedi'i gynilo. Bydd y Dangosfwrdd yn eich helpu i weld ble mae eich pensiynau, faint o arian sydd ynddynt a phwy sy'n gofalu amdanynt. Bydd hyn yn eich helpu i gynllunio ar gyfer eich ymddeoliad yn y dyfodol.

**Pryd alla i ei ddefnyddio?**
Mae'r Llywodraeth yn dal i weithio ar greu'r Dangosfwrdd, felly nid yw'n barod eto. Pan fydd y barod, bydd modd i chi fewngofnodi'n ddiogel a gweld yr holl wybodaeth am eich pensiwn mewn un lle. Bydd y Llywodraeth yn eich hysbysu pan fydd yn barod i chi ei ddefnyddio. Bydd angen i chi greu cyfrif drwy **https://www.gov.uk/using-your-gov-uk-one-login** (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

**Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatau gwahanol, er enghraifft, Braille, print bras, Fideo/DVD Iaith Arwyddion Prydain, tâp sain ac ieithoedd eraill ar gais.**

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.

Mae gan Gronfa Bensiynau Clwyd fesurau seiberddiogelwch cadarn ar waith i gadw gwybodaeth am eich pensiwn yn ddiogel. Mae ein systemau'n cael eu monitro'n gyson, ac rydym yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i ddiogelu yn erbyn bygythiadau.
I'n helpu i gadw eich data'n ddiogel, dylech ddefnyddio cyfrineiriau cryf, bod yn ofalus wrth anfon gwybodaeth bersonol atom ar e-bost, gwylio am e-byst twyllodrus a rhoi gwybod i ni os ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael unrhyw beth amheus.

### CYSYLLTWCH

**pensiynau@siryfflint.gov.uk**

01352 702875
(Dydd Llun i dydd Gwener 9am i 5pm)

**cronfabensiynauclwyd.org.uk**

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF